PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

#SEFYLL GYDA WCRÁIN

# y tincer

75c | Rhif 447 | Mawrth 2022



Penodiad newydd

t.4



Cerddwyr Rhydypennau

t.14



t.9

Llongyfarchiadau Glain

# Ymweliad Iâs









Lluniau: Iestyn Hughes

Gogerddan oedd y man olaf ond un o bedwar ar ddeg arhosiad ar daith Iâs – taith ar Fawrth 5ed o Lambed i Aberystwyth oedd yn ymweld â llefydd yng Ngheredigion sydd wedi rhoi eu henwau i emyn-donau.

Prosiect gwreiddiol, gwahanol gan Eddie Ladd ddaeth â nifer o drigolion Bow Street a Phenrhyn-coch at ei gilydd – yn cynnwys rhai oedd yn hiraethu am gael canu gyda'n gilydd unwaith eto er mai ond un dôn – Gogerddan (Joseph Parry) oedd yn cael ei chanu.

Er mai criw bach drodd i fyny yng Ngogerddan i gymharu â'r man olaf – ar y prom yn Aberystwyth lle roedd Côr ABC yn canu y dôn Aberystwyth roedd yn fwy nag oedd y trefnwyr wedi ddisgwyl, mae'n debyg. Hyn yn dangos gwerth hysbysebu yn y papur bro a chyhoeddi yn yr eglwysi lleol!

Canwyd y dôn gyntaf gan Jamie Medhurst ac Eddie cyn i bawb oedd yna gael cyfle i'w chanu.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG


# dyddiadur

**Dyddiad cau:** Ebrill 1 (wythnos ynghynt na'r arfer). **Dyddiad cyhoeddi:** Ebrill 13

**MAWRTH 18** Nos Wener 'Dathlu Gŵyl Ddewi' Cymdeithas Lenyddol y Garn yng nghwmni Gwenan Gibbard 7.30 o'r gloch dros Zoom - cysyltlwch ag ymholiadau@capelygarn.org am fanylion ymuno

**MAWRTH 22-23** Nosweithiau Mawrth a Mercher National Theatre Wales & Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Petula (Daf James) am 7.30.

**MAWRTH 25-26** Dyddiau Gwener a Sadwrn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd Uwchradd a Cynradd Ceredigion - Pontrhydfendigaid. Croeso i chi hysbysu'r pwyntiau canlynol:

Bydd yr Eisteddfod Uwchradd yn cychwyn am 10yb a'r Eisteddfod Cynradd yn cychwyn am 9yb gyda'r cystadlaethau unigol/deuawdau:

Bore:
Ymgom – Neuadd Fach.
Alaw Werin a Cherdd Dant – Cefn Llwyfan y Pafiliwn
Unawdau/deuawdau – Llwyfan y Pafiliwn
Llefaru – Ystafell y Lyfrgell (tu ôl i'r Neuadd Fach)

Yn y prynhawn, bydd pob ysgol/cangen yn derbyn slot amser penodol i berfformio pob cystadleuaeth y maent yn cystadlu ynddi ar lwyfan y pafiliwn, le fydd pob beirniad yn eistedd yn barod am wledd! Nid oes mynediad i'r cyhoedd

**MAWRTH 26** Nos Sadwrn Cofiwch droi y clociau awr ymlaen heno

**MAWRTH 28-29** Nosweithiau Llun a Mawrth Frân Wen yn cyflwyno Ynys Alys am 7.30

**EBRILL 2** Dydd Sadwrn Ffair y Gwanwyn! PATRASA yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch. Amrywiaeth o stondinau gan fusnesau a chrefftwyr lleol, lluniaeth, raffl, cystadleuaeth gwisg ffansi i blant! Bydd taliadau stondinau ac arian y raffl yn mynd ar gyfer offer newydd i'r Parc. I fwcio lle neu am fwy o wybodaeth ffoniwch Clare Larke 07922360813

**EBRILL 2 – 3** Nosweithiau Sadwrn a Sul Ffeinal Côr Cymru

**EBRILL 8** Nos Wener Glatsh! Taith gomedi gyda Gary Slaymaker, Beth Jones, Steffan Evans, Eleri Morgan ac eraill yn Arad Goch

**EBRILL 17** Nos Sul Sorela yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth

## RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

| | |
|---|---|
| **£250** | Cyngor Cymuned Trefeurig |
| **£13** | Miriam Garratt, Penrhyn-coch |
| **£250** | Cyngor Cymuned y Borth |


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.




Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem

Gwefan Cymuned Trefeurig

trefeurig.cymru

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website | Trefeurig8
whhowells@gmail.com




**#SEFYLL GYDA WCRÁIN**

# 30 mlynedd yn ôl



Merched Ysgol Trefeurig yn eu gwisg Gymreig Llun: Arvid Parry Jones (O *Dincer* Mawrth 1992) O'r chwith i'r dde: Cefn Sara Evans, Rhian Mason, lisa Davies, Rhian jones, Nia Lewis, Josephine Morris, Katy Evans. Blaen: Emma Evans, Ayshe Guest, Lowri Lewis, Tess Robinson.

# Llythyrau

Annwyl Olygydd,
Mewn cyfeiriad at lythyr Brian Davies am y bardd Albert Williams, yr unig gof gennyf am weld ei englynion yng ngholofn Jac Oliver yn y *Cambrian News*, ym mlynyddoedd olaf pumdegau yn ganrif ddiwethaf. Cefais y fraint o'i gyfarfod ar ben drws unwaith pan yn canu carolau gyda Aelwyd Trefeurig tua 1959 neu 1960 a dymuno Nadolig Llawen i'n gilydd.

Mae un hanesyn amdano oedd yn apelio yn fawr ataf i. Roeddd Albert yn was fferm yn ifanc, ac un bore Groglith yn aredig cae mewn fferm gyfagos pan ddaeth rhywun o Goginan i ddweud wrtho am ofalu bod yn yr Eisteddfod yn nes ymlaen gan mai ef oedd wedi ennill y gadair! Gobeithio daw rhagor o wybodaeth am y bardd gwlad diwylliedig hwn.

Yn difffuant
**Vernon Jones**
Bow Street



**Disgyblion Ysgolion Pen-glais a Penweddig ym Mharêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth.**



## Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ionawr 2022

**£25** (Rhif 8) Elin Hefin, Clive Road, Caerdydd
**£15** (Rhif 14) Margaret Rees, Seintwar, Dolau
**£10** (Rhif 50) D Bryn Lloyd, Cwm Eithin, Rhiwbina

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyniadau presennol.

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi ymaelodi am y flwyddyn 2022

BRIDGE HOUSE CLEARANCE

Gardd neu Sied - Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim

f 07792457816/01974 261758

*Trefnwyr Angladdau*

*C T Evans*

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

Brongenau,
Llandre,
Aberystwyth
SY24 5BS

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# Dôl-y-bont

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Meirion Lewis, Cysgod y Gwynt a fu yn dathlu ei ben blwydd yn 70 oed ddechrau'r mis.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Kevan a Sarah Standing a'r teulu, Glangro ar farwolaeth tad Kevan, Paul Standing o Tre'r-ddôl a hefyd â theulu Pantydwn ar farwolaeth chwaer Gerallt - Betty Davies, Maes Ceiro.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau i Jason Lewis, Cysgod y Gwynt ar ei ddyweddiad â Louise Goodwin. Mae'r ddau yn byw yn yr Alban - Jason yn chwarae gyda y Royal Scotish National Opera a Louise yn gyfeilydd gyda'r Scotish Opera. Pob lwc i'r ddau yn y dyfodol.

# Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Digwyddiadau ar bwys y Rheidol**
Cymhaliwyd digwyddiad gwneud golosg / siarcol, pigment paent pridd a thynnu lluniau yn Coed Geufron ar gyfer Ymylon y Rheidol. Cafwyd dwy sesiwn – 10.30-12.30, cinio gyda Bwyd Dros Ben Aber yn y Clwb Criced ac eto yn y pnawn 1.30-3.30,

Hefyd llifo naturiol gyda ZoeZoe Quick, a sesiynau dweud stori gyda Peter Stevenson, mapio swn gyda Ailsa Mair Hughes, naddu gyda Jenny Dingle mewn partneriaeth gyda Coed Cadw.



**Penodiad**
Llongyfarchiadau i Alice Briggs, Ty Capel Aber-ffrwd ar ei phenodi yn Bennaeth Celf yn Amgueddfa Cymru i gefnogi'r tîm celf a symud ymlaen gyda gwaith yr amgueddfa ar gynrychiolaeth, lles, mynediad i'r casgliadau, digido, natur a'r amgylchedd, dysgu a chasgliadau byd-eang. Mae Alice yn Ddirprwy Guradur Amgueddfa Ceredigion.

## Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor wyneb yn wyneb yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor nos Iau Chwefror 17 gyda'r cadeirydd Jim Palmer yn y gadair. Croesawodd bawb i gyfarfod Chwefror a nododd ei fod yn braf cael cwrdd wyneb yn wyneb unwaith eto. Roedd yna 7 o gynghorwyr cymuned yn bresennol a hefyd y Cynghorydd Sir Rhodri Davies.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Ionawr 2022 fel rhai cywir.

Roedd cais cynllunio A211175- Felin Rhiwarthen, Capel Bangor wedi dod i sylw y Cyngor. Nid oedd yna wrthwynebiad.

Mae Cyfrifon 2020/2021 wedi cael eu harchwilio yn allanol ac mae y clerc wedi derbyn yr adroddiad.

Cafwyd diweddariad ar y Parc Chwarae gan y Cynghorydd Sarah Hughes ac mae'r is-bwyllgor yn gweithio ar holiadur er mwyn cael barn trigolion yr ardal. Maent hefyd yn gobeithio cael cystadleuaeth dylunio i blant iau yr ardal.

Dathliad Jiwbili Platinwm y Frenhines-os oes gan rhywun diddordeb mewn trefnu dathliad gofynner iddynt gysylltu a'r clerc Lynne Davies (ebost-cyngormelindwrcouncil@gmail.com).

Diolchwyd i Rhodri Davies ac Alistair Dryburgh am glirio wal y bont ar Rhiw Fach, Capel Bangor.

Diolchwyd i Rhodri Davies am ei waith yn y gymuned.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau Mawrth 17eg am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.

GWE Cambrian WEB

**Gwefannau Gwych o Gymru**

Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Cymraeg*

**Cysylltwch Heddiw**
info@cambrianweb.com
**01970 623 906**

## Colofn Elin Jones AS



Dwi'n siwr ein bod ni gyd yn falch o groesawu'r lleihad sydd wedi bod ar nifer o'r cyfyngiadau Covid, a diolch i chi oll am eich ymdrechion i gadw at y cyfyngiadau er mwyn helpu'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol, ac hefyd i amddiffyn y bregus yn ein cymdeithas.

Ar drothwy'r Gwanwyn, un mater sy'n poeni nifer yw'r newid bydd i system ffonau y wlad wrth i BT ddiffodd y llinellau ffôn copr traddodiadol yn gyfangwbl yn 2025, a newid i'r system newydd 'Digital Voice'. Mae nifer o gymunedau yng Ngheredigion sydd heb signal ffn symudol yn enwedig, yn poeni am sefyllfaoedd ble byddant yn colli trydan, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf, fyddai'n golygu fyddant heb Wifi i fedru gwneud galwadau ar linell ffôn y tŷ. Dywed BT bod ganddynt opsiynau gallant drafod gyda pobl sydd heb gysylltiad ffôn symudol, er mwyn ceisio osgoi'r sefyllfaoedd yma, er dim ond am tua awr byddai'r bateriau ychwanegol yma'n para. Felly, bu i Ben Lake AS a minnau godi'r mater gydag Ofcom, ac mewn ymateb ganddynt dwedwyd wrthom bod adolygiad o'r niwed a'r trafferthion bu i'r rhwydwaith ffôn a thrydan yn dilyn storm Arwen ar hyn o bryd ar waith. Byddant yn ystyried y system ffonau newydd, a'r goblygiadau pan byddant yn dadansoddi'r adolygiad. Byddwn yn parhau i gadw llygad ar y sefyllfa yma.

Mae sawl cymuned yn y Canolbarth wedi gweld cynydd yn y niferoedd o gwmnïoedd mawr sy'n ceisio prynu tir yng Nghymru i'w goedwigo er mwyn ceisio lleihau lefelau carbon. Mae'r Blaid wedi codi'r mater yma yn y Senedd, gan ei fod yn cael effaith ar ein cymunedau a'n economi leol, yn enwedig ar ein gallu i gynhyrchu bwyd, gan bod nifer o'r safleoedd sydd wedi eu prynu ar dir amaethyddol da, gan gwmnïoedd o'r tu allan i Gymru. Mae trafodaethau'n parhau, gyda Plaid Cymru'n gofyn i'r Llywodraeth ystryied creu fframwaith gynllunio addas byddai'n gwarchod perchnogaeth ein tir.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i'r Urdd eleni wrth iddi ddathlu 100 mlynedd. Mae nifer fawr ohonom ag atgofion melys o gystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd yn ein hamser yn yr ysgol, ac atgofion bythgofiadwy o aros yn wersylloedd yr Urdd. Fel rhan o'r dathliadau mi wnes i gymryd y cyfle i ganu 'Hei Mr Urdd' yng nghyfarfod o'r Senedd, a diolch i holl blant ac oedolion dwl Ceredigion am wneud hynny hefyd a helpu'r Urdd i dorri record byd am y nifer mwyaf o fideos o bobl yn canu yr un gân ar Twitter – 250 oedd y record, ond postiwyd 1,176 gan ffrindiau'r Urdd.

Pleser o'r mwyaf oedd cael mwynhau cynnyrch ffres a lleol blasus iawn ym mrecwast yr FUW yn Felin-fach yn ddiweddar. Dylen ni gyd fod yn browd iawn o'n cynhyrchwyr bwyd lleol sy'n gweithio mor galed i ddarparu cynnyrch o safon uchel iawn. Diolch i chi gyd.

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF / CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888




Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

# Y Borth

**Gwylwyr y Glannau yn galw am wirfoddolwyr**

Mae Gwylwyr y Glannau yn chwilio am wirfoddolwyr i ymuno â Thîm Achub Gwylwyr y Glannau y Borth.

Mae aelodau'r tîm yn cynnwys Swyddogion Achub Gwylwyr y Glannau gwirfoddol sydd wedi cael hyfforddiant ac offer arbennig, ac sydd ar alwad 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn gan ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau argyfwng yn cynnwys achub o'r dŵr, achub o fwd, argyfyngau meddygol, a chwilio am bobl sydd ar goll.

Rhaid i wirfoddolwyr fod yn byw o fewn pellter rhesymol i'r orsaf, yn 18 oed neu'n hŷn a chanddynt drwydded yrru lawn. Bydd angen pasio prawf ffitrwydd a meddygol ond nid oes angen profiad blaenorol gan y bydd rhaglen lawn o hyfforddiant yn cael ei darparu ynghyd â'r holl offer pwrpasol.





Ifan Slinger a Serkan Pirti yw'r ddau aelod diweddaraf o Dîm Achub Gwylwyr y Glannau'r Borth.

Dywedodd Dirprwy Swyddog Gorsaf y Borth, Matthew Watkins: "Mae bod yn rhan o Dîm Achub Gwylwyr y Glannau yn ymrwymiad mawr sy'n gofyn am bresenoldeb rheolaidd mewn sesiynau hyfforddi, ymarferiadau a digwyddiadau argyfwng. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn recriwtio gwirfoddolwyr sydd ag argaeledd da yn ystod yr wythnos waith arferol o ddydd Llun i ddydd Gwener."

Fe ymunodd dau aelod newydd a thîm y Borth ym mis Chwefror sef Ifan Slinger a Serkan Pirti.

"Erbyn hyn, mae Ifan a Serkan wedi cwblhau eu hyfforddiant sylfaenol cychwynnol, gan gynnwys gwaith achub dŵr, chwilio am bobl ar goll, a rhoi gofal i bobl sydd wedi'u hanafu. Fel rhan o waith Gwylwyr y Glannau y Borth, mae'r ddau yn ymuno â'r tîm rhaffau a, dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddant yn cael eu cyflwyno i bob agwedd ar ein gwaith achub ar glogwyni," ychwanegodd Mr Watkins.

**Dathlu Dydd Gŵyl Dewi**

Yng Nglwb Golff y Borth ac Ynys-las ar nos Sadwrn 26 Chwefror, cynhaliwyd noson arbennig i ddathlu ein nawddsant ar ôl seibiant o ddwy flynedd oherwydd y pandemig. Yr Athro Bryn Hubbard oedd y siaradwr gwadd. Yn enedigol o'r Borth ac yn byw yn y pentre, mae Bryn yn arbenigwr ar rewlifeg yn Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Mhrifysgol Aberystwyth. Rhoddodd amlinelliad a realaeth achosion o gynhesu byd eang a'r effaith wedyn ar lefel y môr. Sgwrs hynod o ddiddorol a brawychus yn dangos y newidiadau sydd eisioes yn bodoli o amgylch y byd gyda rhewlifau yn lleihau a bron â diflannu a meysydd iâ e.e. yn yr Ynys Las yn ymdoddi. Llawer o ddiolch i Bryn am siarad am faterion sydd angen fod yn meddyliau pawb a sut y gallwn wneud y pethau bychain fel dywedodd Dewi i leihau'r dirywiad a gofalu am ein Daear



ar gyfer y dyfodol. Mawr yw ein diolch hefyd i'r arlwywyr ac i Susan Lund a'i thîm am yr holl baratoi am y noson.

Yng nghaffi Hwb Cymunedol y Borth ar 1 Mawrth, rhoddwyd gwybodaeth gyffredinol am Gymru ar brawf mewn cwis arbennig a gynhaliwyd fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Ar y fwydlen hefyd, roedd cawl traddodiadol, pice ar y maen, a bara brith yn ogystal â chrempog gan ei fod hefyd yn Ddydd Mawrth Ynyd.

**Gweithdy Pobi i Ddynion**

Bydd sesiwn arbennig yn cael ei chynnal yn yr Hwb rhwng 11yb a 3yp ar ddydd Mawrth 22 Mawrth i gynnig cefnogaeth i ddynion sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar neu sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig. Bydd gweithdy gwneud bara a chawl cartref dan arweiniad aelod o dîm Caffi Cwtsh HaHav a staff coginio'r Hwb. Os am gadw lle, cysylltwch gyda lisa@borthfamilycentre.co.uk.

**Codi Arian Dros Frecwast**

Lansiwyd 'Brecwast Mawr y Borth' yng nghaffi'r Hwb fore Gwener 4 Mawrth gyda'r elw o werthu brecwastau llawn yn mynd at Apêl y Groes Goch ar gyfer Wcraen.

**Cyflwyno Anrhydedd**

Mewn seremoni yn yr Hen Neuadd ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yn Llambed ddiwedd mis Chwefror, cyflwynwyd medal BEM i Helen Williams, Hwb Cymunedol y Borth, gan Arglwydd Raglaw Dyfed Sara Edwards. Dyfarnwyd y fedal i Helen fel rhan o Anrhydeddau Flwyddyn Newydd y Frenhines yn 2021 a hynny am wasanaethau i rieni ifanc bregus ac i'r henoed yn Borth yn ystod Covid-19. Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion oedd yn gweinyddu, ac yn y gynulleidfa roedd teulu Helen (Mark, Eleanor, Anna, Eliza ac Oliver Williams) a Chadeirydd Ymddiriedolwyr Hwb Cymunedol y Borth, y Cynghorydd Ray Quant.



# Dadorchuddio Murlun

Daeth o ddeutu 50 o bobl y pentref ynghyd y tu allan i Hwb Cymunedol y Borth ar ddydd Sadwrn 12 Chwefror ar gyfer dadorchuddio murlun arbennig.

Roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle i ddathlu'r grant o £360,000 a ddyfarnwyd i'r Hwb y llynedd gan y Loteri Cenedlaethol er mwyn iddyn nhw ddatblygu eu gweithgareddau cymunedol ymhellach.

Clwb Ieuenctid y Borth, gan arweinyddiaeth swyddog ieuenctid yr Hwb, Chris Corish, fu'n gyfrifol am y murlun. Dechreuwyd ar y gwaith yn ystod Haf 2021, ac fe'i arianwyd gan Gyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru.

Roedd Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion, y Cynghorydd Paul Hinge, Cadeirydd Ymddiriedolwyr yr Hwb y Cynghorydd Ray Quant, a Jane Dodds, Aelod Rhanbarthol y Senedd dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, ymhlith y rhai oedd yn

bresennol.

Dywedodd Rheolwr Hwb Cymunedol y Borth, Helen Williams: "Daw cryfder Hwb Cymunedol y Borth o'r gefnogaeth gan y Loteri Genedlaethol, ein gwirfoddolwyr, ein staff a'n ymddiriedolwyr. Mae nifer o fudiadau, teuluoedd ac unigolion wedi cefnogi'r Hwb dros y blynyddoedd ac wrth i reoliadau'r pandemig ddechrau llacio, roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i ddathlu a dweud diolch."



**Cystadlaethau Clwb Golff y Borth ac Ynys-las**

Tawel yw'r cystadlu yr adeg yma o'r flwyddyn gyda'r tywydd yn heriol, y cwrs yn wlyb a thair storm yn taro sef Dudley, Eunice a Franklin. Yn ffodus ni chafwyd llawer o ddifrod i'r cwrs y tro hwn fel digwyddodd yn ystod storm Barra ond mae cyflwr wal y môr yn y maes parcio ynghanol y cwrs wedi mynd o ddrwg i waeth.



**Adran y Menywod**

Chwaraewyd rownd derfynol cystadleuaeth knockout Cwpan Horton rhwng Kay Thomas a Clare Jones. Llongyfarchiadau i'r ddwy am fynd drwy tair rownd i gyrraedd y ffeinal. Ar ôl gêm gyffrous, Clare Jones gipiodd y cwpan. Llongyfarchiadau mawr iddi.

**Adran y Dynion**

Cystadleuaet Stableford – Cymru yn erbyn Gweddill y Byd.

1. Bob Gill – 38 pwynt
2. Christopher Evans – 35 pwynt
3. Jeff Evans – 35 pwynt

Felly Gweddill y Byd yn ennill! Gwell hwyl y flwyddyn nesa fois Cymru!

# Canolfan Ymwelwyr Ynys-las

Mae gan Ganolfan Ymwelwyr Ynys-las nifer o ddosbarthiadau ddigwyddiadau yn ystod mis Mawrth ac Ebrill. Rhaid bwcio o flaen llaw drwy ffonio 01970 872901, neu e-bostio ynyslas@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk am ragor o wybodaeth. Mae'r Ganolfan ar agor yn ddyddiol ac mae yno gyfleusterau cyhoeddus yn ogystal ag ystafell weithgareddau a siop yn gwerthu nwyddau Cymreig a phaned i fynd.

*MIS MAWRTH*

Iau 10 (10-12.30)
Macrame i ddechreuwyr – £15

Iau 17 (10-4yp)
Ffotograffiaeth y tirwedd – £45

Gwener 18 (10:30-3:30)
Crochet i ddechreuwyr – £20

*MIS EBRILL*

Mawrth 5 (2-3:30yp)
Perllenni: Cyflwyniad i'w dylunio a'u rheoli An – £15

Iau 7 (1:30-4yp)
Planhigion lleol: Llên gwerin a hanes
£25

**Dathlu'r 90**

Dymuniadau gorau i Mrs Rosa Davies, Tŷ Gwyn, Glanwern, ar ei phen-blwydd yn 90 oed ar 16 Mawrth.



# Pen blwydd priodas aur

Llongyfarchiadau calonnog i Susan a Maldwyn Williams, Heol Aberwennol, ar ddathlu eu pen-blwydd priodas aur ddiwedd Chwefror. Dyw'r ddau ddim yn edrych ddiwrnod yn hŷn nag oedden nhw yn Chwefror 1972! Dymuniadau gorau at y dyfodol, gyda chofion oddi wrth Sarah, Hywel a'r teulu i gyd.



# Portread - cystadleuaeth i ddisgyblion bl 5 a 6

Diolch am y pleser o gael darllen a mwynhau'r saith cynnig a ddaeth i law ar gyfer cystadleuaeth ysgrifennu **Y Tincer** eleni i blant blynyddoedd 5 a 6. Y dasg oedd ysgrifennu portread ar y testun *Fy Arwr,* a chefais fwynhad mawr wrth ddod i adnabod eich arwyr, boed yn aelodau'r teulu neu'n anifeiliaid anwes. Roedd elfennau disgrifiadol arbennig ym mhob un o'r portreadau, a'r hiwmor a'r tynnu coes yn amlwg.

Cefais ddysgu am **Coco'r ci** sy'n hoff o wylio'r teledu a **William y gath** sy'n caru cael cwtsh ar y soffa a bwyta Cheesy bites. Cefais hefyd ddod i adnabod **Blodyn Tatws Evans** y pysgodyn aur sy'n ddall ond yn gallu synhwyro pan mae hi'n amser bwyd!

Wrth ddisgrifio aelodau o'r teulu, dysgais am **Jacob** siaradus a'i bersonoliaeth *chilled* a **Lauren** sy'n gogydd o fri ac yn mwynhau Harry Potter. Cefais ddod i adnabod **Mam** sy'n gweithio'n brysur ar y fferm yn rhedeg ar ôl y defaid ac yn hoff o ddarllen cylchgronau.

Ond, y portread sy'n dod i'r brig eleni yw'r un o **Nain** "â'i gwên glên a'i gwallt gwyn fel cwmwl." Ceir yma ddisgrifiadau byw ac roeddwn yn hoff iawn o'r hiwmor naturiol; mae'n amlwg bod **Nain** yn berson arbennig iawn i ti. Mae'r ail wobr yn mynd am y portread naturiol a disgrifiadol o **Mam,** a'r trydydd am wreiddioldeb y portread o **Blodyn Tatws Evans**.

Diolch o galon i bob un ohonoch am gystadlu ac am roi cymaint o bleser a rhoi cipolwg i mi o'ch arwyr. Gobeithio y byddwch i gyd yn parhau i ysgrifennu a rhoi mwynhad i ddarllenwyr. Daliwch ati.

**Bethan Davies, Penrhyn-coch**

Llongyfarchiadau i'r canlynol a diolch i Anwen Pierce am noddi y tocynnau llyfr.

1af **Twm Williams**, Ysgol Penrhyn-coch – £15
2il **Elan Rowlands**, Ysgol Penrhyn-coch – £10
3ydd **Mirain Evans**, Ysgol Rhydypennau – £5

## Nain



Gwallt gwyn fel cwmwl sydd gan Nain a sbectol fach ar flaen ei thrwyn. Er bod gwallt Nain weithia'n hirach na'r arfer (yn enwedig pan oedd siopa trin gwallt wedi cau yn ystod y pandemig) mae un peth sydd wastad yn edrych yr un peth ar ei wyneb sef ei wên glên.

Mae Nain yn fyr neu efallai bo fi'n tyfu yn sydyn. Mae hi wastad efo crempogau melys blasus yn aros amdana i pan fyddai'n mynd yno ar ôl gêm bêl droed.

Mae Nain yn Gog a dwi ddim yn deall beth mae hi yn dweud hanner o'r amser ond dwi yn deall beth mae mwythau yn meddwl.

Un o fy hoff bethau i wneud efo Nain ydi gwneud jigso. Eistedd wrth fwrdd y gegin am oriau yn gwneud yn siwr bod bob darn yn mynd yn ei le.

Mae Nain wastad yn gweu blancedi neis a dwi yn hoffi gorwedd ar y soffa efo blanced gynnes Nain drosta i.

Dwi'n caru Nain mwy na'r byd i gyd!

**Twm Aron Williams**
**Ysgol Penrhyn-coch**

## Mam

Cafodd ei geni ar 3 Tachwedd 1976 a mae hi'n 43 mlwydd oed. Mae ganddi gyrls bach brown yn ei gwallt, llygaid brown sy'n edrych fel y mwd sleidiau sych. Mae ganddi geg fach a thrwyn smwt. Mae ganddi dipyn o lais sgwici.

Mae hi'n gwisgo trowsus du, siwmper las sy'n edrych fel y môr. Ei swydd yw gweithio ar y fferm. Mae hi'n gweithio bob dydd. Mae'n rhedeg ar ôl y defaid yn gyflym. Ei hobïau yw gwneud brethyn i'm chwaer fach, ma hi weithiau yn hoffi darllen cylchgronau a mae hi'n gogydd da. Mae'n hoffi bwyta bwyd Tsieineaidd, reis a cyri. Dydy hi ddim yn bwyta llawer o siocled.

Mae ganddi chwaer, Mam a Tad sy'n byw i gyd ar ffarm. Mae hi'n wyllt ac yn iach.

Sut ydych chi'n eu hadnabod? Chi'n ei adnabod hi am mai hi yw fy Mam ac rwy'n byw gyda hi. Mae ei phersonoliaeth braidd yn bosy iawn a hapus. Gall fod yn wirioneddol bosy weithiau. Byddaf i yn ei chofio hi fel Mam a pherson anhygoel.

**Elan**
**Ysgol Penrhyn-coch**



## Blodyn Tatws Evans!

Dyma bortread o Blodyn Tatws Evans! Dydy Blodyn ddim yn aelod arferol o'r teulu, o na, Pysgodyn yw hi. Mae wedi bod yn y teulu yma ers 7 mlynedd.



Mae'n pysgodyn aur ond mae hanner uchaf ei chorff yn oren a'r hanner arall yn arian. Mae ganddi cheg enfawr sydd yn agor o hyd ac efo'r ceg mae hi'n mynd 'blob blob blob' bob dydd heb stopi. Mae e'n edrych fel ei bod hi eisiau siarad gyda ni. Ond y peth yw mae hi'n ddall, druan a hi yndife. Ond er bod hi'n ddall, mae'n glyfar achos mae'n gwybod pryd mae'n amser bwyd! Mae ganddi asgellau enfawr fel cawr ac mae'n nofio yn gyflym fel chita yn y dŵr. Mae'n mynd rownd a rownd fel merigorownd. Mae'n diddanu ni wrth nofio o hyd.

Ei hoff fwyd hi yw bwyd pysgodyn! Ni'n caru Blodyn er bod hi'n byw mewn tanc dwr ac yn bysgodyn! Pysgodyn NI ydi Blodyn, pysgodyn y teulu a neb arall!

**Mirain Evans**
**Ysgol Rhydypennau**

## Cyngor Cymuned Geneur Glyn

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor:**

cyngorcymunedgeneurglyn communitycouncil.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 28.02.2022 yn rhithiol, 'roedd un Aelod yn absennol. (Os dymunwch fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod, cysylltwch â'r Clerc).

**Trafodwyd**:

- **Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor. 2 diffibriliwr newydd wedi'i archebu a wedi eu gosod yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre a'r llall yn Dol-y-bont. Grant oddi wrth Cyngor Sir Ceredigion am cyfarpar i'r parc wedi derbyn.
- **Parc a'r Cyrtiau Tennis**: Trafodaethau yn mynd yn ei flaen gyda'r cwmni yswiriant. Dyfynbris am y gwaith wedi'i derbyn.
- **Adroddiad gan y Cyng Ray Quant**: Derbyniwyd diweddariad ar y sefyllfa bresennol ledled Ceredigion.
- **Eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf**: Datblygiadau'r Parc yn y Dyfodol. Lleoliad cyfarfod Mis Ebrill.
- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 28 Mawrth yn Ysgoldy Bethlehem am 7.00yh.

Pauline Lucas:
clercgeneurglyn@yahoo.com

# Llandre

**Mwy o Y Fets**
Da deall fod Boom Cymru nôl yn ffilmio pumed cyfres o Y Fets.

**Bwyty newydd**
Dymuniadau gorau i fenter newydd Craig a Rhiannon Edwards, Cegin Jonah – Lôn Cambria ychwanegiad newydd da i gaffis Aber yn hen siop James y Bara.

**Offerynnol**
Llongyfarchiadau i Gruffydd Sion ar ddod yn gyntaf ar yr unawd pres Bl 7 8a 9 yng Ngŵyl Offerynnol yr Urdd Ceredigion. Dymuniadau gorau yn Ninbych.

**Dewis i gwrs drama**
Llongyfarchiadau mawr i Glain Llwyd ar gael ei dewis i fod yn aelod o Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Bydd Glain yn mynychu cwrs preswyl dros y gwyliau Haf, ac ar ddiwedd y cyfnod ymarfer, bydd sioe ddwyieithog newydd yn cael ei pherfformio gan y cwmni.





**Llongyfarchiadau**
Bu C.Ff.I. Tal-y-bont yn brysur yn cystadlu yn ystod mis Chwefror a llongyfarchiadau mawr i Lois Jones, Pantyperan, am ddod i'r brig fel y Cadeirydd gorau a'r Darllenydd gorau yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus i Glybiau Ceredigion. Pob lwc iddi hi a'i thîm, Elan a Ioan Mabbutt, wrth fynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth Cymru ar Fawrth 27.

**#SEFYLL GYDA WCRÁIN**

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
10.00-5.00
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

# Difyrion Digidol

Mae'r Pandemig yn anffodus wedi bod yn ergyd drom i fwrlwm diwylliannol ein cymunedau – gyda'n neuaddau pentref, ysgolion, canolfanau, tafarnau a'n capeli yn dawel. Yr ydym yn mawr obeithio fod y rhod yn dechrau troi a'n bod yn wynebu'r gwanwyn a'r haf yn 2022 gyda gobaith y bydd digwyddiadau fel hyn yn raddol ddychwelyd, nid fel yr oedd hi o bell ffordd, ond o leiaf yn gallu cyfarfod a hynny'n ddiogel.

Gyda digwyddiadau yn raddol ailddechrau, mae hyn yn gyfle i sôn am adnodd dyfeisgar a hawdd i greu deunydd marchnata proffesiynol i'ch digwyddiad mewn canolfan (neu'n rithiol!), boed yn noson lenyddol, gig, cyngerdd neu dalwrn y beirdd.

Un ap sydd yn werth rhoi tro arni yw Canva. https://www.canva.com/ Mae Canva yn rhaglen hawdd iawn i'w ddefnyddio gan fod yna templed dylunio at bob math o achlysuron – o bosteri i bamffledi ac mi fedrwch chwarae ag addasu fel dach chi isio. Nid oes raid bod yn arbenigwr mewn rhaglen gyhoeddi fel Quark neu Microsoft Publisher - mae'r fersiwn dwi'n ddefnyddio yn costio £10 y mis ond mae'r ap ar gael am ddim ar android https://play.google.com/store/apps/details?id=com.canva.editor neu ar apple https://apps.apple.com/gb/app/canva-design-photo-video/id897446215

Yr unig wahaniaeth rhwng yr un yr ydych yn ei dalu amdano ydi'r nifer o dempledi sydd am ddim.

Gallwch ddefnyddio'r templedi gwahanol i greu bob mathau o bethau, yn cynnwys delweddau yn benodol ar gyfer mesuriadau delwedd Facebook neu Instagram. I bwyllgorau golygyddol papurau bro Cymru, mae'n werth rhoi ystyriaeth i'r ap hwn ar gyfer gosod eich papur bro.

Does yna ddim angen llwytho'r feddalwedd ar eich gliniadur ag mae'r cyfan yn cael ei wneud ar-lein. Os ydych chi'n digwydd colli fersiwn flaenorol neu ddileu rhywbeth yn ddamweiniol mae'n bosib mynd yn ôl i'w adfer. Mi fedrwch hyd yn oed wneud y cyfan ar eich ffôn clyfar drwy'r ap – mae hynny yn golygu mwy o ffidlian ond mae'n bosib iawn golygu ar eich ffôn clyfar.

Mae hefyd yn bosib rhannu dogfen brosiect ag addasu rhywbeth ar y cyd. Gellir troi'r ddogfen meistr i fformat PDF wedyn neu fformatiau lluniau PNG neu JPG. Mae fformat JPG er enghraifft yn benodol ar gyfer cyhoeddi lluniau ar gyfer y We, gyda fformat PNG yn addas os ydych angen lluniau o ansawdd uwch.

Mae yna ap arall hefyd sy'n gwneud yr un gwaith sef hwn: https://create.vista.com/ Unwaith eto, gellir creu posteri o bob math, pamffledi a chylchlythyron o safon.

Gan fy mod wedi sôn sawl tro yn fy ngholofnau am bwysigrwydd technoleg i gyflawni nod yn ein bywydau, mae'r adnoddau hyn yn ffyrdd o hyrwyddo'n diwylliant cymunedol. Nid ar dechnoleg yn unig y bydd dyn neu ddynes fyw, ond mae'n help os ydio'n gwneud ein bywydau'n haws!

Os ydych chi'n rhan o fudiad, cymdeithas neu bapur bro ac yn awyddus i dderbyn hyfforddiant am ddim ar yr uchod, cysylltwch gyda mi ar deian.apRhisiart@wales.coop

**Deian ap Rhisiart**

# Sialens Gerdded Ceredigion

Oes gennych chi ddiddordeb i archwilio rhai o olygfeydd harddaf Ceredigion, o glogwyni gwyllt gwyntog i ddyffrynnoedd coediog cysgodol? Beth am gymryd rhan yn Sialens Gerdded newydd Ceredigion?

Mae tîm Arfordir a Chefn Gwlad Cyngor Sir Ceredigion wedi sefydlu sialens newydd i gynyddu nifer y bobl sy'n archwilio llwybrau Hawliau Tramwy Cyhoeddus Ceredigion yn ogystal â chynyddu iechyd a lles pobl.

O hanner tymor mis Chwefror, bydd amryw o deithiau cerdded ar draws y sir yn cael eu cyhoeddi'n wythnosol ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y Cyngor. Bydd tair sialens gan gynnwys sialens 10 milltir, 50 milltir a 100 milltir yn ogystal â rhestr o deithiau cerdded mynediad hygyrch/haws. Bydd y teithiau cerdded i gyd yn hunan dywysedig.

Mae dros 2500km o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn croesi Ceredigion o lwybrau hir i lwybrau byr, felly yn ystod y gwanwyn a'r haf dylai fod rhywbeth i bawb ei fwynhau.

Gall cerddwyr gael copi e-daflen o'r llwybrau i helpu i'w harwain ar eu ffordd sydd ar gael o'r Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar wefan y Cyngor. Mae'r rhain wedi'u cysylltu â thref, pentref neu bentrefan ac yn dangos gwybodaeth ychwanegol megis proffil o'r llwybr, y pellter, sut wyneb sydd i'r llwybr, mannau parcio cyfleus ac a oes cyfleusterau eraill wrth law.

Atgoffir y sawl sy'n defnyddio Llwybrau Hawliau Tramwy Cyhoeddus fod y llwybrau hyn yn croesi tir preifat a bod angen dilyn y Côd Cefn Gwlad drwy'r amser. Dylai cerddwyr wisgo esgidiau cadarn a dillad sy'n briodol i'r tywydd a chymryd dŵr yfed.

Dilynwch ni ar Facebook a Twitter ar @CSCeredigion yn Gymraeg ac @CeredigionCC yn Saesneg ac @CaruCeredigion ar Instagram i gymryd rhan yn y sialens. Mae rhagor o wybodaeth am y sialens ar gael ar y wefan: www.ceredigion.gov.uk/sialensgerdded

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at clic@ceredigion.gov.uk neu ffoniwch 01545 570881 a gofynnwch am gael siarad ag aelod o dîm yr Arfordir a Chefn Gwlad.





## Cronfa Goffa'r Fonesig Grace James

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau am gymorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2022.

Yr ysgrifennydd yw:
Delyth Davies, Bryn Siriol, Lluest, Llanbadarn Fawr
Aberystwyth SY23 3AU
01970 629984 · e-bost delythdavies6@gmail.com

# Adolygiadau

Bethan Gwanas *Blodwen Jones a'r aderyn prin* Gomer@Lolfa, 2022. 100t. £6,99




Dyma ail nofel Bethan Gwanas yn olrhain hanes Blodwen Jones yn y gyfres Amdani, sef cyfres o lyfrau i ddysgwyr, ac mae'r nofel hon mor ddoniol â'r gyntaf. Mae Blodwen Jones a'r aderyn prin yn cario ymlaen gyda hanes Blodwen, merch sy'n gweithio mewn llyfrgell, wrth iddi ddysgu Cymraeg a chwilio am y dyn perffaith.

Nid yw bywyd Blodwen yn hawdd. Mae gafr 'da hi sy'n hoffi bwyta popeth yn ei gardd hi a gerddi cymdogion, ac mae'r afr yn hoffi dianc bob dydd. Mae cath 'da hi sy'n cael infestation o chwain ac mae 'da hi gydweithwraig sy ddim yn ei hoffi hi. Ac mae hi'n trio dysgu Cymraeg hefyd.

Fel arfer, dw i ddim yn lico chick-lit fel Bridget Jones, ond, rhywsut, mae gwin a gwaith, adar a dynion yn fwy doniol trwy'r Gymraeg. Ond, tipyn bach o stereotype yw Blodwen: 30-rhywbeth oed, yn sengl, yn hoffi bwyta cacennau ac yn yfed gormod o win . . . ydy hi'n meddwl am bethau difrifol o gwbl? Nid nod pob merch yw edrych am ddyn perffaith. Ond ie, dw i'n gwybod, os dych chi'n dysgu Cymraeg, rhaid i chi gael tipyn bach o hwyl rhywle, rhywsut.

Achos dw i'n ddysgwraig hefyd, dw i'n gallu cydymdeimlo gyda Blodwen trwy'r amserau anodd gyda'r iaith Gymraeg. Dw i'n gallu chwerthin gyda hi hefyd, a dyna pam mae'r llyfr hwn yn dda. Pan dych chi'n gallu darllen, deall a chwerthin trwy ail iaith, chi'n teimlo bod chi'n wedi cyrraedd.

Mae'r gyfres hon yn syniad da achos, fel dysgwraig, dw i'n moyn darllen trwy gyfrwng Cymraeg, ond mae nofelau go-iawn Cymraeg yn rhy anodd – a Smot ayyb yn rhy syml. Dyma rywbeth yn y canol, gyda themâu oedolion ond mewn iaith addas i ddysgwyr. Mae'n eithaf byr, nid yw fel darllen nofel gyffredin, ond mae sense of achievement pan dych chi wedi gorffen llyfr go-iawn yn y Gymraeg. Mae'r pris yn grêt hefyd – dim ond £3.50.

Mae'n help mawr i gael geirfa ar waelod bob tudalen, ond weithiau maen nhw ailadrodd yr un gair rhai tudalennau yn nes ymlaen. Dw i'n meddwl bod y llyfr hwn yn addas i ddysgwyr sydd wedi astudio am tua dwy flynedd neu fwy. Hefyd, mae'n well os chi'n gwybod y gwahaniaeth rhwng 'dach' a 'dych' a phethau gwahanol eraill rhwng iaith y Gogledd a'r De. Ond nid yw'n broblem fawr, yn enwedig achos fod nodiadau yn y cefn i helpu esbonio pethau.

Chi'n dysgu tipyn bach am Gymru hefyd, fel enw go-iawn 'Bardsey Island' yw Ynys Enlli, ac mae llawer o adar prin arni hi. A, falle, mae Mr Perffaith arni hi hefyd? Pwy sy'n gwybod?

**Alyson Tyler**




Elin Jones *Hanes yn y tir*. Gwasg Carreg Gwalch, 2022. 222t.£16.50

Llyfr am hanes Cymru yw hwn gan Elin Jones, sy'n mynd â ni ar daith o'r dechreuad cyntaf un (tua 5000 o flynyddoedd yn ôl pan ddechreuodd y bobl gyntaf esblygu, gan fyw mewn ogofâu) hyd at sefydlu'r Senedd ym Mae Caerdydd yn 1997.

Ceir llawer o ddigwyddiadau diddorol eraill yn hanes Cymru rhwng y cloriau, megis hanes y Celtiaid a'r Rhufeiniaid, sefydlu Cristnogaeth yng Nghymru a'r eglwysi ddaeth yn sgil hynny, cestyll mawreddog yn cael eu hadeiladu, y Cymry a'u rôl yn y fasnach gaethwasiaeth, codi'r tollbyrth a hanes eu chwalu gan Ferched Beca cyfrwys, hanes ofnadwy y Welsh Not mewn ysgolion, y ddau ryfel byd, hawliau menywod, a llawer mwy.

Hoffais y ffordd rannwyd y gyfrol, gyda phedair llinell amser yn dynodi'r gwahanol brif gyfnodau. Mae yma hefyd ddigon o luniau a diagramau diddorol; credaf fod hyn yn ysgafnhau'r cynnwys ac yn cadw ein diddordeb. Cyflwynir llawer o'r ystadegau ar ffurf siartau a lluniau, megis y map o Gymru sy'n dangos y twf yn nifer y rheilffyrdd dros gyfnod o amser – cymaint mwy effeithiol na rhestrau o rifau'n unig.

Hoffais y clawr am ei fod yn lliwgar, yn cynnwys cymeriadau o wahanol gyfnodau, ac hefyd mae cynnwys y ddraig yn tynnu sylw. Dyma ychwanegiad gwerthfawr at unrhyw silff lyfrau.

**Elin Williams** (13 oed)

**Da gweld cyfraniad gan un o'n darllenwyr ifanc**

**Bywgraffiad Awdur**

Bu Elin Jones yn dysgu yn ysgolion uwchradd Preseli, Rhydfelen a Chwm Rhymni cyn cael ei phenodi'n swyddog addysg yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Yn y swyddi hyn i gyd roedd disgwyl iddi gynefino â phob cyfnod o hanes Cymru, a chafodd gyfle i gyd-weithio gydag arbenigwyr ac i baratoi adnoddau ar gyfer dysgwyr o bob oedran a gallu. Ym 1996 dechreuodd wneud gwaith ymgynghorol gydag Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, gyda chyfrifoldeb dros reoleiddio'r cymwysterau hanes, datblygu'r cwricwlwm hanes a'r dulliau o'i asesu, a chomisynu adnoddau dysgu hanes hefyd. Bu'n cadeirio'r tasglu oedd yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad i'r Gweinidog Addysg ar Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru yn 2013. Mae'n westai poblogaidd wrth drafod straeon a chymeriadau o hanes Cymru ar raglenni Radio Cymru.



# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**

*Mawrth*

27 10.30 Y Parchg Peter Thomas

*Ebrill*

3 2.30 Y Parchg Peter Thomas

17 Sul y Pasg 10.30 Y Parchg Judith Morris

24 10.30 Y Parchg Peter Thomas

**Cymdeithas y Penrhyn**

Prif Gwnstabl newydd Heddlu Dyfed-Powys, Richard Lewis, oedd ein siaradwr yng nghyfarfod mis Chwefror. Mae newydd ailymuno â Dyfed-Powys ar ôl bod yn Brif Gwnstabl Heddlu Cleveland yng ngogledd Lloegr am gyfnod byr.

Cawsom sgwrs ddiddorol iawn ganddo am ei fagwraeth, yn fab i blismon, yn sir Gaerfyrddin, astudio yn y brifysgol yn Aberystwyth a'r gwahanol ardaloedd yng Nghymru y bu'n gweithio ynddynt. Bu'n gweithio yn Efrog Newydd yn 2010 a nododd bod tebygrwydd yn y gwaith yn y fan honno i broblemau y bu'n delio â nhw yng ngogledd Lloegr.

Ac yntau yn dal yn ei gan diwrnod cyntaf yn Nyfed-Powys pan fu'n siarad â ni, nododd ei fod wedi rhoi blaenoriaeth i wrando ar y gymuned a dod i ddeall ei hanghenion. Soniodd am ei fwriad i annog pobl ifanc leol sy'n siarad Cymraeg i ymuno â'r llu a'i fod am i'r iaith Gymraeg fod yn rhan o waith bob dydd yr heddlu. Dim ond ugain y cant o alwadau i'r heddlu sydd am droseddau erbyn hyn. Mae'r gweddill yn ymwneud â phroblemau iechyd meddwl, problemau teuluol a chymdeithasol, heb sôn am blismona'r we sydd fel dinas ynddi ei hun. Felly mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn rhan hanfodol o'r gwaith.



Y gŵr gwadd Ben Lake, AS Ceredigion, ynghyd â swyddogion y Gymdeithas, Ceris Gruffudd,(Ysg.) Gwerfyl Pierce Jones (Cadeirydd) ac Eirian Reynolds (Trysorydd)

Nos Sadwrn Mawrth 12 daeth bron 30 a ynghyd i ginio Gŵyl Ddewi yn Nhafarn y Maes, Capel Bangor. Ar ôl cinio blasus cafwyd araith gan y gŵr gwadd, Ben Lake, AS. Bydd cyfarfod blynyddol y Gymdeithas i drefnu rhaglen 2022/23 ar Fehefin 15 a gobeithir trefnu taith o Ogledd Maldwyn ar Fehefin 18.

**Cystadleuaeth Poster**

Dyluniwch boster Parti yn y Parc. 1 cais i bob plentyn ar y templed o Garej Tŷ Mawr.

Dyddiad cau: 31 Mawrth

Cyhoeddir enillwyr yn y Ffair wanwyn Ebrill 2il. Dychwelwch i'r garej neu Clare Larke.




## Côr Cymru

Roedd yn bleser gweld ysgol leol yn cystadlu yn Côr Cymru a wynebau cyfarwydd yn eu plith.

Ar Fawrth 6ed gwelwyd Côr Iau Pen-glais yn cystadlu yn erbyn Glanaethwy a Chôr Ieuenctid Mon (dau gôr profiadol iawn fu'n cystadlu yn y gorffennol).

Tynnodd y beirniad answyddogol sylw at frwdfrydedd y plant a'r parch oedd ganddynt tuag at Miss Blair, eu harweinydd. Roedd yn ysbrydoliaeth iddynt a phob pâr o lygaid arni.

Ac mae mwy! Bydd Rachel Blair yn arwain Côr Hŷn Pen-glais nos Sul 20 Mawrth yn rownd y corau ieuenctid. Dymuniadau gorau!



## Canu o flaen tai pobl adeg y Pasg?

Cafodd rhai syniad – tybed fyddai diddordeb gan rywrai i gerdded ar hyd y pentref a chanu emynau i'r rhai sydd yn gaeth i'w cartrefi penwythnos y Pasg – 15/17 Ebrill. Bu sôn am wneud hyn gyda charolau Nadolig ond daeth y pandemig.

Os oes rhywrai â diddordeb canu, cael ymweliad gan y cantorion neu gael mwy o fanylion cysylltwch â Eleri James, Cae Mawr 07812 855719 elerijms@yahoo.co.uk neu Ceris Gruffudd (828017) Ceris.Gruffud@gmail.com.





Cylch Meithrin Trefeurig yn dathlu Gŵyl Ddewi a Diwrnod y Llyfr.



Llun: Isobel Fisher Photography

Daeth llwyddiant i Anniemay James ar Ionawr 23 pan ddaeth yn gyntaf gyda'i cheffyl yng nghystadleuaeth hyfforddiant Ardal 21 gyda Grwp Marchogaeth Dyffryn Paith gafodd hefyd y wobr gyntaf yn eu cystadleuaeth. Roedd y cam nesaf yn Grantham ddiwedd Mawrth – pencampwriaeth Clwb Marchogaeth Prydain.

Bydd Annimay James yn marchogaeth Seren ac Enlli Puw ar Africa yn y dosbarth Rhagarweiniol. Bydd Libby Wilkins (Clarach) ar Archie a Becca ar Bertie yn y dosbarth Nofyddion. Mae hyn yn orchest fawr i'n marchogwyr sydd yn ffodus fod Caryl Thomas (Goginan) wrth law i'w cynorthwyo i gyflawni eu gorau.



Llongyfarchiadau i'r Parchg Judith Morris am ennill ei degfed cadair yn Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis ar Chwefror 26. Bu Emyr Davies yn cyfarch y bardd buddugol.

Yr angor a wnaeth gydio
Dy awen tra yn llifo,
Ein llongyfarchion wrth it' ddod
A chlod am berl diguro.



**Y plant gyda'u torchau i gofio dydd Gŵyl Dewi Sant Sul 20 Chwefror yn y Clwb Sul ar y cyd. Roedd rhai yn methu bod gyda ni oherwydd hanner tymor ac ati. Yn y llun gwelir Rhys, Elen, Ifan, Jac ac Efa yn y blaen.**

**Eisteddfodol**

Llongyfarchiadau i Steffan Jones, Dôl Helyg, disgybl yn Ysgol Penweddig ar ddod yn 2il ar yr unawd pres Bl 7 8a 9 yng Ngŵyl Offerynnol yr Urdd Ceredigion

**Pêl-droed Penrhyn-coch**

12/2 Penrhyn-coch 1 Airbus 1
26/2 Llandudno 4 Penrhyn-coch 0
27/2 Cwpan "seniors" canolbarth cymru Llanfair 4 Penrhyn-coch 1
5/3 Penrhyn-coch 3 Cegidfa Guilsfield 0

**Eilyddion**

26/2 Penrhyn-coch 0 Llanidloes 4



**Brownies Penrhyn-coch wedi paratoi baneri ar gyfer Ddydd Gŵyl Ddewi. Rhes gefn: Iona, Seren, Mya, Eleri, Riva; rhes flaen: Florence, Moli a Milly. Roedd y merched yn hapus iawn i gwrdd eto wyneb i wyneb yn Neuadd yr Eglwys!**







Wrth law i'w cynorthwyo i gyflawni eu gorau.

# Bow Street

**Suliau'r Garn am 10.00**

*Ebrill*

3 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
10 Oedfa yng Nghapel Noddfa
17 Oedfa'r Ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
24 Oedfa Dydd Gweddi'r Byd, dan ofal Llinos Dafis

**Suliau Noddfa**

*Ebrill*

3 Richard Lewis
10 Richard Lewis. Y Garn yn uno.
17 Sul y Pasg. Richard Lewis. Cymundeb
24 Wyn Morris

**Capel y Garn**

Braf yw cael cyfarfod wyneb yn wyneb ar foreau Sul ac uno i gydganu unwaith eto. Braf hefyd yw'r cyfarfodydd o hirbell sy'n dod â phobl o bell ac agos at ei gilydd yn rhithiol. Cyfuniad o'r ddau fu hi yn y Garn yn ystod y mis diwethaf gan fod oedfaon fore Sul wedi digwydd yn y capel a Chlonc a Phaned ar foreau Iau wedi parhau i gyfarfod ar lein, ac felly hefyd gyfarfod y Gymdeithas Lenyddol ar Chwefror 18fed, pan fu Cynog Dafis yn olrhain dechreuadau Cymdeithas yr Iaith ddechrau'r chwedegau.

Fore Sul Chwefror 27ain dathlwyd Gŵyl Ddewi gyda chasgliad y Parch John Lewis Jones o ddarlleniadau perthnasol a gwerthfawr yn cael eu cyflwyno gan unigolion o blith yr aelodau. Ar Fawrth 6ed cafwyd y cyfarfod wyneb-yn-wyneb cyntaf i'r ofalaeth ers dwy flynedd. Roedd dwy elfen i'r gwasanaeth, sef myfyrio a gweddïo dros bobl Wcráin a Rwsia, a thynnu sylw at apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 'Hadau Gobaith', a fydd yn cefnogi pobl Kenya yn ystod ei gyfnod cyntaf. Yn ystod y gwasanaeth gwnaed casgliad tuag at ffoaduriaid Wcráin a thrwy eu haelioni dangosodd y rhai oedd yn bresennol eu pryder a'u cydymdeimlad â'r anffodusion.

Ddiwedd Chwefror daeth y newyddion trist am farwolaeth Mrs Ann James, mam ein Gweinidog. Cydymdeimlwn â'r teulu, a hefyd â theuluoedd tri a fagwyd yng Nhapel y Garn, sef Gareth Lewis, Brynawel, David Evans, Ruel, a'i chwaer Elizabeth Davies, Maes Ceiro; estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â theulu'r ddiweddar Mrs Eirlys Evans, Brongenau gynt.

**Merched y Wawr**

Cawsom gyfarfod o'n cangen pnawn Llun Mawrth 14 yn Neuadd Rhydypennau. Croesawyd ni yn gynnes gan ein Llywydd, Marian Beech Hughes. Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn gyda Lisa Davies a'r teulu ar farwolaeth Emyr ei gŵr, person addfwyn a thyner.

Yn y cyfarfod rhannodd tair o'n haelodau ychydig o atgofion.

Gwnaeth Bethan Hartnup sôn am y teithiau mae criw o bobol yn ei gael efo'r arweinydd Rees Thomas. Mae'r teithiau yma wedi cychwyn ers rhai blynyddoedd ac yn ddiddorol iawn. Does wybod l ble fydd y daith yn mynd, ond bydd gan Rees wybodaeth eang amdanynt. Dangosodd Bethan lun oedd hi wedi ei wneud gyda tameidiau o ddefnydd ac edau; roedd yn wych.

Bu Maria Owen yn sôn am ei Mam-gu a oedd yn byw yn Nhal-y-Bont. Roedd yn wraig oedd yn hoffi gwaith llaw, a dangosodd Maria gwilt bendigedig oedd wedi ei wneud gyda gwahanol fathau o ddefnydd (patchwork), Roedd yn dlws dros ben. Roedd hi hefyd yn gwneud eli at wahanol anhwylderau.

Wedyn daeth Lila George i sôn am ei Mam a'i Thad. Cyfarfu y ddau pan aeth Mrs Piette (ei chyfenw ar ôl priodi) yn ifanc, i Ffrainc er mwyn cael dysgu yr iaith a chyfarfod a'r gŵr, ifanc, a buont yn cadw mewn cysylltiad wedyn, a priodi. Dangosodd Lila luniau ohonynt.

Cawsom noson ddiddorol dros ben, a diolchodd Marian i'r dair.

**Teyrnged**

*David William Evans, Ruel Isaf*

Bu farw Dei Ruel, Ruel Isaf, Bow Street, ar 5ed Ionawr 2022 yn 90 mlwydd oed. Mab annwyl oedd i'r englynwr y diweddar William Robert Evans ac Annie Mabel, brawd hoffus Beti, Gerallt a Margaret, a'i diweddar frodyr a chwiorydd, ac ewythr parchus nifer mawr o neiaint a nithoedd.

Bugail oedd Dei wrth natur a threuliodd ei oes adref yn ffermio, a bugeilio yn achlysurol ar fynydd y teulu yn Bwlch Glas a Nantperfedd Tal-y-bont. O esgyn i'r llechweddi wrth gefn y cartref gallai'r teulu weld os oedd niwl neu eira ar fynydd y lluestai hyn, cyn penderfynu ar y cam nesaf. Treuliodd flynyddoedd maith ar ben ei hun yn y Ruel wedi marw y teulu, a gwasgaru eraill o'i frodyr a'i chwiorydd i'w gwahanol gartrefi. Pleser gan Dei bob amser oedd cael mwynhau cwmni ei neiaint a'i nithoedd.

Gŵr bodlon ar ei fyd ydoedd, swil ond parod ei sgwrs, siaradai Gymraeg pur ddilediaith yn llawn idiomau rhywiog yr iaith, fel eraill o'i deulu. Mewn ymgom gyda ambell gyfaill, nid syndod oedd clywed pennill o farddoniaeth neu linell o gynghanedd, dylanwad yr aelwyd ddiwylliedig yn parhau.

Cafodd modd i fyw pan wersyllodd y criw teledu yn ffilmio Y Gwyll o flaen y tŷ am gyfnod. Tebyg iddynt hwythau gael profiad a dysgu rhywbeth am fywyd oedd yn ddieithr iddynt!

Byddai yn wyna allan, peth anghyffredin y dyddiau hyn, gyda siediau mawrion yn feithrinfa defaid i wyna. Ond pleser oedd gweld ei ŵyn cryfion iach yn gynnar pob gwanwyn. Nid rhyfedd gan bod Ruel Isaf yn wyneb hawl, a'r cefn at wynt a glaw Môr

## Cerddwyr Rhydypennau





Ar Fawrth 8fed mwynhaodd criw Rhydypennau daith gerdded o gwmpas Cwmrheidol er ei bod braidd yn fwy anturus na'r disgwyl oherwydd ambell goeden oedd wedi cwympo dros y llwybrau.

yr Iwerydd. Gellid dweud ei fod wedi parhau i ffermio yn yr hen ddull, ond nid oedd gwaeth am hynny.

Yn y blynyddoedd diwethaf, o edrych dros y dyffryn o Bow Street, gwelwyd ef yn quad–fugeilio y llechweddi a'r caeau, fel pryfyn ar ffenestr. A cyn i'w olwg ballu, gwelwyd ef ar dractor mawr, yn ofalus yrru lawr i siopa yn y pentref.

Claddwyd Dei ym meddrod y teulu ym Mynwent Tal-y-bont.


**V.J.**

Yn drist bu ei chwaer Beti farw ar Chwefror 27 – gweler isod.

**Cydymdeimlad**
Fis yn ôl yr oeddem yn cydymdeimlo â Mrs Beti Davies, 8 Maes Ceiro ar farwolaeth ei brawd a'r mis yma yr ydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant ag Eric ar farwolaeth sydyn Beti ei hun ar Chwefror 27ain. Cofion annwyl iawn ato yn ei brofedigaeth gan gofio hefyd bod hen deulu'r Ruel wedi cael sawl dyrnod galed yn ddiweddar.

Yr ydym hefyd yn cydymdeimlo â Mair, Lowri a Graham, a Rhys, Brynawel, ar farwolaeth Gareth ar 20 Chwefror. Wrth gydymdeimlo â hwy yr ydym yn cofio am Gareth yn arbennig am ei gyfnod gyda fan y Llyfrgell ac hefyd mai fo oedd y trydydd aelod o'r triawd (gyda John Gwynfa a W B Evans) fu mor weithgar gyda Sioe Rhydypennau ar hyd y blynyddoedd.

**Capel Noddfa**
Wrth i'r cyfyngiadau lacio dychwelyd i drefn o oedfaon go iawn yn y capel fu ein hanes yn ystod mis Chwefror. Ar Sul olaf y mis cynhaliwyd oedfa arbennig ar gyfer dathlu Gŵyl Ddewi dan arweiniad Richard. Yn ystod yr oedfa rhoddwyd sylw i rai o drysorau arbennig Eglwys Llanddewibrefi gan gynnwys y cerflun o Ddewi sydd yno, y ffenestri lliw trawiadol ac hefyd y meini hynafol, yn arbennig Carreg Idnert sydd yn dyddio o'r seithfed ganrif ac arni gyfeiriad at Dewi ei hun. Pan ddaeth yn amser nodi Dydd Gweddi'r Byd ar ddechrau mis Mawrth penderfynwyd defnyddio addasiad a thalfyriad o'r gwasanaeth swyddogol a baratowyd gan ferched Cristnogol o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer yr Oedfa ar fore Sul, Mawrth 6ed,ac fe gymerwyd rhan gan Mair Lewis, Gareth William Jones,



Vaughan Griffiths, Anwen Pierce, Meretta Griffiths, Elin Pierce Williams ac Elisabeth Wyn. Maria Owen oedd wrth yr organ. Addurnwyd y capel â baneri yn cynrychioli Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac roedd detholiad o fwydydd o'r gwledydd hynny i'w gweld yn y cyntedd. Yr oedd Mair Lewis wedi gwau cyflenwad o sgwariau gweddi pwrpasol ar gyfer yr oedfa ac fe'u dosbarthwyd ar ddiwedd yr oedfa.

**Adref ar wyliau**
Roedd yn braf gweld Jean Corfield a'i gŵr gartref o Canberra, Awstralia am gyfnod o wyliau.

**Aelwyd Rhydypennau**
Diolch i Vernon Jones am adael i ni wybod pwy oedd Swyddogion Pwyllgor Aelwyd Rhydypennau yn nechrau'r saithdegau.

Cadeirydd: Mrs Alwen Morgan, Carreg Afon.
Trysorydd: Mrs Martin, Maes Ceiro,
Ysgrifennydd; Mr Vernon Jones, Gaerwen.
Trefnydd lluniaeth: Mrs William Jones, Llandre.
Bu nifer dda o rieni yn gefnogol yn ôl y galw

**Yn yr Ysbyty**
Mae Mr Iwan Davies, Cnwc y Deintur, wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Hyderwn y bydd wedi cael dod adref erbyn cyhoeddi'r rhifyn hwn o'r *Tincer* ac y bydd yn well yn fuan.

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus i Alan Wynne Jones, fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 80 ar Fai 11.

## Ar y rhestr hir

Mae gwraig o Bow Street sydd yn byw yng Nghaerdydd yn un o'r rhai ddewiswyd ar restr hir Saesneg gwobr Crime Cymru.

Ym mis Mai 2021, lansiodd Crime Cymru wobr newydd ar gyfer awduron trosedd newydd yng Nghymru: Gwobr Nofel Gyntaf **Crime Cymru** First Novel Prize. Eu nod ar gyfer y wobr oedd hyrwyddo awduron trosedd sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd, gan gynnig llwyfan i'w gwaith a hybu eu datblygiad wrth ysgrifennu. Mae datblygu talent newydd yn un o'u hamcanion craidd fel cydweithfa.


Gofynnwyd i awduron gyflwyno'r 5,000 gair cyntaf o nofel drosedd, ynghyd â chrynodeb o holl blot y nofel. Roedd yn agored i geisiadau fod yn Saesneg neu'r Gymraeg, a byddant yn gwobrwyo dau enillydd: un ym mhob iaith. Canol Medi 2021 oedd y dyddiad cau, ac yn y cyfamser mae Crime Cymru a'u beirniaid rhyfeddol wedi bod yn gweithio'n galed y tu ôl i'r llenni.

Ar y rhestr mae *Smoke* gan Gwenno Uhi (nee Dafydd). Bydd yr enillwyr yn y ddwy iaith yn cael eu datgan ar wefan Crime Cymru, ar eu blog a thrwy eu sianeli cyfryngau cymdeithasol ar y **30 o Ebrill 2022**.

## Cân i Gymru

Llongyfarchiadau i Carys Owen ( gynt Roberts, Crud yr Awel) ; daeth ei chân hi ac Elfed Morris, geiriau Emlyn Gomer Roberts - Rhyfedd o fyd yn drydydd yn y gystadleuaeth Cân i Gymru yn ddiweddar. Cafodd Carys lwyddiant hefyd nôl yn 2002, pan wnaeth y gân *Rhy Gry* a gyfansoddwyd ar y cyd gydag Emyr Rhys ddod yn ail.







# Capel Bangor /Pen-llwyn

**Cyfarfod i ddathlu cyfraniad Ieuan Gwyllt**
Cynhelir cyfarfod gan Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor, ar ddydd Sul, Hydref 2, am 6.00. i ddathlu cyfraniad Ieuan Gwyllt ar ddauganmlwyddiant ei eni. Yn y cyfarfod cenir detholiad o emynau Ieuan Gwyllt dan arweiniad Mrs Margaret Daniel gyda chyflwyniad gan Dr Rhidian Griffiths (yn adrodd hanes Ieuan Gwyllt – ei gyfraniad a.y.y.b) rhwng yr emynau.

**Gwellhad Buan**
Dymunwn wellhad buan i Mrs. Cynthia Evans, Cwmwythig wedi iddi dreulio ychydig amser yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

A'r un dymuniadau i Miss Cerys Humphreys, Ystrad wedi iddi hithau gael "ychydig o wyliau" yn Bron-glais. Yng ngeiriau'r gân "fe wellwch pan ddaw'r gwanwyn" a theulu a ffrindiau o'ch amgylch i gynorthwyo. Pob dymuniad da.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad puraf â'r Ddr. a Mrs. Watcyn James a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl iawn – sef Mrs. Ann James. Cawsom gwmni Mrs. James yn y gymdeithas am beth amser pan roedd yn byw yn y Mans efo'i mab a'i merch yng nghyfraith. Yn enedigol o Benarth, graddiodd o Goleg Prifysgol Caerdydd ac ar ôl priodi'r Parch Henry James, bu hi a'i phriod yn weithgar yn y maes cenhadol yn yr India am bedair mlynedd. Ar ôl dychwelyd adref bu'n darlithio yng Ngholeg Addysg Bellach Croesoswallt ac yn bennaeth adran yn Ysgol Gyfun Llanfyllin. Roedd yn wraig ddiwylliedig ac o argyhoeddiad gadarn, o bersonoliaeth hyfryd a hawdd iawn oedd nesu ati a dod yn ffrindiau â hi. Hyderwn y bydd i'r teulu dderbyn o gynhaliaeth yr Efengyl yn eu hiraeth.

**Merched y Wawr Melindwr**
Bu aelodau cangemn Melindwr o Ferched y Wawr yn mwynhau dathlu Dydd Gwŷl Ddewi gyda te a chwis Cymraeg. Enillwyr y cwis oedd Lynne Davies a Delyth Davies. Cafodd pawb hwyl a diolchwyd i Eirwen Mcnulty am baratoi a threfnu'r cwis. Hefyd diolchwyd i Alison, Amy a Carys Crefftau Rhydypennau am y croeso cynnes a'r te hyfryd. Dyma hefyd un ffenest allan o lawer dros Gymru  wedi ei addurno gan aelodau'r mudiad. Rydym yn gobeithio cynnal noson Pawb a'i Farn yn ein cyfarfod mis nesaf 4 Ebrill.








## Ffermio yn Llundain

Yn fab fferm o Gapel Bangor mae Dai Jones bellach yn reolwr fferm yn ardal Greenwich yn Llundain ers deng mlynedd lle mae yn rheoli fferm gymunedol Woodlands. Bu yn sgwrsio ar raglen Radio Cymru **Ar y tir** ar y 13eg o Chwefror.

Wedi ei fagu ar fferm Tŷ Llwyd, Capel Bangor – fferm fu yn nwylo'r teulu am flynyddoedd mawr, dechreuodd weithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llannerchaeron gan weithio efo gwirfoddolwyr yno yn rheoli yn ogystal a bod yn gyfrifol am weddill tir yr Ymddiriedolaeth yng Ngheredigion.  Pan welodd o swydd yn cael ei hysbysebu yn Llundain aeth amdani – roedd cysylltiad cryf wedi bod gyda'i deulu â Llundain - 2 hen ewythr wedi bod yn rhedeg caffis, a dychwelodd ei dad-cu i Geredigion ar ôl bod yn gweithio yno.

Sefydlwyd y fferm yn Greenwich (oedd yn bod fel fferm ers 1780) fel un gymunedol ym 1997 gan yr elusen annibynol, The Woodlands Farm Trust y Coop sydd yn berchen y tir. Arferent dyfu gwenith a magu moch. Datblygwyd y sefydliad gyda chyfrifoldeb dros Gadwraeth ac Addysg – ac maent yn rhoi sylw i fridiau prin.





Ffermir gwartheg, defaid, moch a ieir ar y fferm - mae ganddynt 6 buwch – tair British White a thair Longhorn, 100 o ddefaid, Llŷn, Dorset Down a Manx Loaghtan, 2 fochyn – dwy hwch Tamworth ac maent yn tyfu gwair sydd yn cael ei werthu yn lleol. Ymhlith y prynwyr mae un sydd yn cadw cobiau Cymreig ac yn dod i'w dangos yn y Sioe Fawr.

Croesewir ysgolion cynradd yma gan geisio rhoi blas ar fywyd gwledig a chan obeithio y bydd rhai yn troi eu golygon at amaethyddiaeth yn y dyfodol. Cynhelir Clwb Ffermio i ieuenctid o 11 i 18 oed bob bore Sadwrn ar y fferm ac mae profiad Dai o Glwb Ffermwyr Ieuanc Sir Aberteifi yn help aruthrol ac yn dwyn i gof lawer o atgofion melys siwr o fod. Mae anifeiliaid a bywyd fferm yn ddiarth i ddisgyblion ysgol – ac athrawon yn aml a cheisir cyflwyno rhywbeth newydd yn flynyddol – e.e. y profiadau o blygu cloddiau, gweithio efo pren neu gyrsiau ffensio.

A thra bu ef yn brysur weithio ar y fferm mae ei wraig Sioned wedi bod yn ystod y cyfnod yn bennaeth Ysgol Gymraeg Llundain ac yn rhedeg cangen Llundain o Ferched y Wawr – gellir darllen ei hanes ar dudalennau'r *Ddolen* a'r *Wawr.*

Pob dymuniad da efo'r fenter a bydd croeso nol i chi a Sioned i Ben-llwyn unrhyw adeg.

## Madog, Dewi / Cefn-llwyd



**Marchnad Aberystwyth (1181) 26/2/2022**
Gwerthodd mamogiaid a hyrddod yn arbennig o dda gyda llawer o deips cryf wedi eu cyflwyno. Roedd yr ŵyn blwydd yn anoddach i'w gwerthu gyda rhai ysgafnach wedi eu cyflwyno.

Prisiau fel a ganlyn:
Mamogiaid (529) Amcg £67.20 mwy £150 gan y Brodyr Hamer, Glennydd, Y Groes.
Hyrddod (93) Amcg £95.60 mwy £176 gan Innovis
Mamogiaid cyfeb (4) mwy & amcg £95
Wyn blwydd (566) Amcg £68 mwy £122 gan Evans, Cwmwythig, Capel Bangor.
Fel hyn oedd hi heddiw a phawb i'w gweld yn ddigon hapus. Roedd llai o alw am ŵyn y llynedd i gymharu â'r sêl ddiwethaf. Diolch i bawb am fynychu.

**Gwellad buan**
Dymunwn wellhad buan i Tegwyn Lewis, Rhos-goch, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

Bu David Powell, Nantybwla, yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau; gobeithio ei fod yn dal i wella ar ôl cyfnod o anhwylder.


**Pen blwydd arbennig**
Penblwydd hapus iawn i Alwyn Hughes, Gellinebwen sydd yn dathlu ei ben blwydd yn 70 ar 17 Mawrth.

## Cylch Meithrin Pen–llwyn

Cafwyd dechrau prysur i mis Mawrth pan ddathlwyd Dydd Gŵyl Ddewi a Diwrnod y Llyfr yn y Cylch. Ar ddydd Gŵyl Ddewi, gwisgodd y plant mewn gwisgoedd traddodiadol a choch a dathlwyd ein Cymreictod yn y Cylch. Ar ddydd y llyfr dewisodd pob plentyn ei hoff stori a chafwyd llawer o hwyl yn eu darllen.

Gyda'r Gwanwyn ar y gorwel, rydym wedi dechrau plannu ac yn edrych ymlaen i weld y tyfu dros yr wythnosau nesaf, ac wedi gwneud helfa Natur o amgylch safle'r ysgol.

Mae'r Cylch ar agor o ddydd Llun i Ddydd Gwener, 9yb tan 3yp. Os oes diddordeb gennych i ymuno â ni, ebostiwch cmpenllwyn@gmail.com







## Cyngor Cymuned **Tirymynach**

(Os hoffech fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod yna cysylltwch â'r Clerc ar maesceiro@gmail.com )

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror tan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Robert Pugh nos Iau 24 Chwefror 2022 gyda 8 Cynghorydd yn bresennol

Wrth dderbyn cofnodion Cyfarfod mis Ionawr cadarnhawyd bod cyllideb o £24,400 wedi ei gosod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 a hynny yn seiliedig ar Braesept £19,500. Cadarnhawyd hefyd bod cyfanswm o £4,000 i'w ddosbarthu i fudiadau a chymdeithasau lleol cyn diwedd mis Mawrth.

**Materion a drafodwyd:**

**Ffens Cae Chwarae Bryncastell:** Nodwyd bod y stormydd diweddar wedi achosi cryn ddifrod i'r ffens bren, digon i gyfiawnhau cysylltu â'r cwmni yswiriant. Penderfynwyd cau'r cae dros dro er diogelwch defnyddwyr.

**Hysbysfwrdd Cymunedol:** Cadarnhawyd archebu hysbysfwrdd o faint sylweddol gyda'r enw TIRYMYNACH mewn lle amlwg ar gost cychwynnol o £1,716.00.

**Clwb Pêl-droed Bow Street:** Cadarnawyd cyfrannu £300 at gost cael diffibrilydd ar safle Cae Piod.

**Diffibrilydd Ardal Bryncastell:** Cadarnhawyd archebu peiriant oddi wrth Calon Heart ar gost o £1,225.00.

**Adroddiad Misol y Cynghorydd:** Roedd cyfran helaeth o adroddiad misol y Cynghorydd Hinge yn ymwneud â diweddariadau ar gynlluniau cynllunio, yn arbennig felly y cais am annedd ar dir ger Dolau Gwyn, Dole, ac am ragor o dai ger Clos Corwen, Llangorwen.

**Deiseb croesfan sebra ger hen Swyddfa'r Post:** Adroddwyd bod deiseb yn pwysleisio yn angen am groesfan sebra ger hen Swyddfa'r Past ar droed yn dilyn damwain arall yno yn ddiweddar.

**Deiseb rhandiroedd:** Adroddwyd bod deiseb parthed **y** posibilrwydd o gael rhandiroedd yn yr ardal ar droed.

**Gwefan y Cyngor**: Penderfynwyd bwrw ymlaen gyda cynlluniau ddiweddaru ac uwchraddio'r wefan.

**Cydnabyddiaeth y Clerc:** Cadarnhawyd £15.00 yr awr am 5 awr yr wythnos am y flwyddyn 2021-22


**Hysbyseb swydd y Clerc:** Penderfynwyd bod angen hysbysebu swydd y Clerc yn y wasg yn lleol ac ar wefan Un Llais Cymru.

**Cyfarfod nesaf:** Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor nos Iau 31 Mawrth 2022.

Cofnodion llawn ar gael ar wefan y Cyngor: www.cctirymynach.cymru

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Enw'r mynydd sy'n gorwedd rhwng blaen cymoedd Cletwr, Ceulan, ac Einion, i'r dwyrain o Dre Taliesin, yw *Moel y Llyn* (SN712917). Fel y mae'r enw'n ei awgrymu, mynydd noeth, di-goed, sydd yma, yn codi 521 o fetrau uwchlaw'r môr, gyda llyn mewn pant gerllaw'r copa.




Map Arolwg Ordnans 1:50,000 (2021)
© Arolwg Ordnans (100064713)

Ymddengys ei fod yn enw ar luest hefyd ar un adeg, gan fod un o weithredoedd stad Gogerddan yn cyfeirio at 'the site of a dairy house called *Lluest Moel y Llyn*' (LlGC: GAB 3/1/7), ond nid yw ei lleoliad yn hysbys. Ceir adfeilion rhyw fath o strwythur yng nghesail y graig ychydig i'r dwyrain o'r llyn, ond deallaf gan Gwilym Jenkins, Ty'n-graig, Tal-y-bont, mai corlannau ar gyfer godro defaid oedd y rhain. Yn ei farn ef, mae'r adfeilion sydd mewn pant cysgodol i'r gogledd neu i'r gogledd-orllewin o'r llyn yn lleoliad mwy tebygol ar gyfer y lluest.

Ceir traddodiad gwerin yn gysylltiedig â llyn *Moel y Llyn* sy'n heb fod yn annhebyg i chwedl Llyn y Fan Fach, sir Gaerfyrddin, ac un Llyn Barfog, sir Feirionnydd.

Mae'n adrodd hanes bugail yn gwarchod ei wartheg ar *Foel y Llyn* pan ymddangosodd merch landeg, Arglwyddes y Llyn, o'r dŵr. Syrthiodd mewn cariad â hi, a chytunodd hithau i'w briodi, ar yr amod na fyddai'n ei tharo â haearn. Daeth yr Arglwyddes â gwaddol o yrr o wartheg gwynion gyda hi, a bu'r ddau byw'n ddedwydd mewn lluest gyfagos. Ymhen rhai blynyddoedd, trawodd y bugail ei wraig â haearn ar ddamwain, ac ar unwaith, galwodd hithau ei gwartheg ynghyd a'u harwain yn ôl at y llyn. Roedd un o'r lloi wedi ei anafu, ac erbyn iddo gyrraedd y llyn roedd yr Arglwyddes a gweddill y fuches wedi diflannu i'r dŵr. Cafodd y llo gymaint o fraw nes troi'n ddu, a dyna, yn ôl traddodiad lleol, oedd dechreuad brid y Gwartheg Duon Cymreig.

Tybed felly ai *Arglwyddes y Llyn* a goffeir yn yr enw *Cae'rarglwyddes* (SN693917) am luest yng Nghwm Cletwr, yn union i'r gorllewin o *Foel y Llyn*? Posibilrwydd arall yw mai chwedl onomastig yw hon, a luniwyd mewn ymgais i esbonio a chysylltu gwahanol enwau lleoedd yn yr ardal. Boed a fo am hynny, mae'n braf gwybod bod Gwartheg Duon Cymreig yn parhau i gael eu magu yng *Nghae'rarglwyddes*.

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru **www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**




STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

**Storfa Cartref a Busnes**

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion

Monitro Diogelwch 24 Awr

Wedi ei wresogi

Bocses a 'bubblewrap' ar lein

www.boxshopsupplies.co.uk

Mid Wales Removals

Ffôn: 01654 703592

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

www.midwalesstorage.co.uk

**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad

Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain

djevansfuneraldirectors@gmail.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

SIOP

**SGIDIAU GWDIHW**

Shan Jones

8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL

01970 617092

GWASANAETH

**GOFAL TRAED**

Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r

MRCPod

YTincer@googlemail.com

Urdd 100 1922 - 2022

## Mwy o luniau cystadleuwyr lleol eisteddfodau'r Urdd.



**Parti adran bentref Rhydypennau wrth eu bodd ar ôl ennill y tlws am gyd adrodd o dan 15. (O'r *Tincer* Mehefin 1989) Llun: Arvid Parry Jones**




**Cân actol Ysgol Penrhyn-coch a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghwm Gwendraeth ar y testun 'Ffermio'. (O'r *Tincer* Meh 1989) Llun: Hugh Jones**



**Aelodau parti cyd-adrodd (Blwyddyn 1, 2 a 3) Adran Rhydypennau. Fe enillodd y parti hwn wobr gyntaf yn Eisteddfod Pantyfedwen ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Catrin Mason, Mared Jenkins, Joyce Evans, Carys Roberts, Sian Davies, Carwen Evans, Mair Thomas a Sharon Evans yw enwau'r aelodau. Dim ond un oedd hwn o nifer o bartion o Aelwyd Rhydypennau a hyfforddwyd gan Mr Alun Jones ac a ddaeth yn fuddugol ym Methesda. (O'r *Tincer* Meh 1986) Llun: Arvid Parry Jones**

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Ysgol Rhydypennau

**Coginio**

Da iawn i bawb fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth 'Cogurdd' yn ddiweddar. Cystadleuaeth goginio wedi ei threfnu gan yr Urdd yw 'Cogurdd' sydd bellach yn ran bwysig o ddigwyddiadau blynyddol yr ysgol. Eleni, y dasg oedd creu plât arbennig o ffrwythau a cheisio plesio ein beirniad Wendy Jones, cogyddes yr ysgol. Ar ddiwedd yr ornest, Gwenno Jones o flwyddyn 6 ddaeth i'r brig ac ennill lle haeddiannol yn y rownd nesaf. Llongyfarchiadau i Gwenno a diolch yn fawr iawn i bob cystadleuydd am sicrhau gornest o'r safon uchaf.

**Dathliadau**

Yn dilyn wythnos o wyliau hanner tymor, braf oedd dychwelyd nôl i'r ysgol at lwyth o ddigwyddiadau cyffrous.
O fewn wythnos dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Crempog a Diwrnod y Llyfr!
Ar Fawrth y cyntaf cafodd y plant gyfle i wisgo Cennin Pedr a gwisg draddodiadol Gymreig a threfnwyd gweithgareddau Gŵyl Dewi difyr o ddawnsio gwerin a chreu penwisgoedd i goginio cawl llysiau blasus! Ac yn ystod yr holl firi cafwyd hyd yn oed amser i goginio a blasu crempogau melys! Campus!

**Diwrnod y Llyfr**

Eleni, dathlwyd Diwrnod y Llyfr ar y 3ydd o Fawrth. Roedd hyn yn gyfle i ni gyd werthfawrogi ein llyfrau gorau a thrafod ein hoff straeon. Eleni, cafodd plant y Cyfnod Sylfaen wisgo fel eu hoff gymeriad tra croesawyd yr awdures leol, Medi Jones-Jackson i blith plant Cyfnod Allweddol 2.



Dathlu Diwrnod y Llyfr gyda'r awdures Medi Jones-Jackson.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
**http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk**
@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.





Plant Y Meithrin yn paratoi'r Cawl.



Cystadleuaeth Cogurdd



Gwenno Jones-enillydd 'Cogurdd'



Plant y Meithrin yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi



Plant blwyddyn 5 a 6 yn dathlu Diwrnod y Llyfr gyda'r awdures Medi Jones-Jackson



Plant Y Meithrin yn paratoi'r Cawl.

# Ysgol Craig yr Wylfa












**E-ddiogelwch**

Mae cadw pawb yn ddiogel wrth ddefnyddio'r holl gyfarpar technolegol yn fater pwysig iawn i ni yma yn yr ysgol. Rydym yn manteisio ar y cyfnod yma i atgyfnerthu'r negeseuon pwysig am e-ddiogelwch gyda'r staff a gyda'r plant. Hoffwn ddiolch o galon i Duncan Kerridge, un o lywodraethwyr yr ysgol, am gynnal cwis hwyliog gyda grŵp o blant dros TEAMS yn ystod yr wythnos.

**Dydd Gŵyl Dewi**

Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o blant wedi gwisgo yn eu gwisgoedd traddodiadol a rhai mwy modern yn ystod y dydd er mwyn dathlu dydd gŵyl ein Nawddsant. Diolch o galon i'r staff am drefnu'r holl weithgareddau diddorol. Llongyfarchiadau mawr i Logan am ennill cystadleuaeth y blodau gorau yn y Cyfnod Sylfaen a da iawn Tilly a Rogue hefyd. Llongyfarchiadau mawr i Lyla am ennill cystadleuaeth Cyfnod Allweddol 2 a da iawn ti hefyd Leo. Roedd eich arddangosfa'n werth eI gweld.

**Diwrnod y Llyfr**

Roedd tipyn o fwrlwm yn yr ysgol wrth ddathlu Diwrnod y Llyfr eleni eto. Dymuniad aelodau'r Cyngor Ysgol oedd gwisgo fel cymeriad o lyfr ac fe gafwyd amrywiaeth fawr o wisgoedd diddorol a lliwgar. Mae'n braf i weld fod cymeriadau mewn llyfrau'n parhau i gynnal diddordeb a brwdfrydedd ein plant i ddarllen a mwynhau llyfrau. Cofiwch wario'r talebau a mwynhewch y darllen.

**Technoleg Newydd**

Gan nad oedd modd croesawu ymwelwyr i'r ysgol yn ystod mis Chwefror, rhaid oedd troi eto at dechnoleg i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau. Diolch yn fawr i griw o'r ysgol am gynnal cyfarfod gyda dwy o lywodraethwyr yr ysgol, Carol Bainbridge a Catrin Pugh Jones, i drafod rhai o agweddau pwysig yr ysgol. Diolch i chi blant am fod mor agored ac am gynnal y cyfarfod mor broffesiynol.








# Ysgol Pen-llwyn

**Dydd Gŵyl Dewi**
Buodd y plant yn dathlu dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth y cyntaf. Cafodd y plant a'r staff gyfle i wisgo mewn coch, neu mewn gwisg draddodiadol. Cafodd y plant gawl blasus dros ben i ginio. Diolch Miss Cathy!

**Prosiect Crochenwaith**
Mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn brysur iawn yn creu eitemau o grochenwaith yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae yma amrywiaeth o gwpanau lliwgar gyda phob math o ddyluniadau arnynt a phob un yn dal dŵr!

**Diwrnod y Llyfr**
Ar ddydd Iau 3 Mawrth roedd yn Ddiwrnod y Llyfr. Roedd hyn yn gyfle i'r plant wisgo fel eu hoff awdur neu hoff gymeriad o lyfr. Roedd gwisgoedd y plant yn lliwgar ac roedd pob math o gymeriad, anifail a bwystfil yn ein plith. Yn ogystal, cynhaliwyd sêl llyfrau yn yr ysgol. Diolch am garedigrwydd rhieni, a ddaeth â'u hen lyfrau i'r ysgol i'w gwerthu.

**PC Hannah**
Cafodd criw'r Cyfnod Sylfaen ymweliad rhithiol gyda PC Hannah o'r heddlu. Dysgodd y plant am wasanaethau argyfwng, sut mae cysylltu gyda'r bobl gywir mewn argyfwng, a chlywodd y plant am yr holl wasanaethau hollbwysig sydd yn bodoli i gadw plant ein gwlad yn ddiogel.

**Beiciau Cydbwysedd**
Cafodd y Cyfnod Sylfaen sesiwn o weithio gyda beiciau cydbwysedd. Cynhaliwyd y sesiwn gan Stefano o Ceredigion Actif, a derbyniodd yr ysgol 10 beic yn rhad ac am ddim yn dilyn y sesiwn. Bydd dim stop ar y plant 'ma o hyn ymlaen!

**Ymweliad â Choedwig Gogerddan**
Ymunodd plant Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol gyda'i ffrindiau o Ysgol Penrhyn-coch am ddiwrnod yng nghoedwig Gogerddan. Buodd y plant yn gwneud ymchwiliadau hidlo dŵr, roedd cyfle i gyfansoddi barddoniaeth a chreu Gwaith Celfyddyd naturiol. Dyma oedd diwrnod i'r brenin ac rydyn ni mor ffodus i fod wedi gallu mynd allan i fwynhau profiadau tu allan i ffiniau'r adeilad ysgol o'r diwedd.

**Clwb yr Urdd**
Mae Clwb yr Urdd wedi bod yn brysur yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r plant wedi mwynhau sesiwn rygbi, cynhaliwyd eisteddfod ysgafn gydag amrywiaeth o gystadlaethau ac eitemau hwyliog, cafwyd sesiwn ar gerddoriaeth Cymraeg a hefyd buodd y plant yn creu campweithiau clai.

**Miss Lleucu**
Rydyn ni yn ffodus iawn i fod wedi cael cwmni Miss Lleucu yn nosbarth CA2 ar brofiad Gwaith o'r brifysgol. Cafodd y plant lawer o hwyl yn ei chwmni a buodd yn lawer o gymorth i'r plant. Diolch am bopeth a phob lwc yng Nghwm Rhondda Miss Lleucu!

Pob dymuniad da i holl ddarllenwyr y *Tincer* wrth i'r tymor newydd gyrraedd. Gwnewch y pethau bychain fel Dewi Sant a mwynhewch weld rhyfeddod natur wrth i'r Gwanwyn ddeffro yn ein tir;

*Mae heddiw'n Fawrth y cyntaf,*
*Yn ddydd Gŵyl Dewi Sant,*
*I gofio am ein nawddsant dewr*
*Sy'n ffrind i ni y plant.*









# Gyda'n gilydd - Ysgol Penrhyn-coch a Phen-llwyn

**Diwrnod Defnyddio'r rhyngrwyd**
Bu disgyblion CA2 yn creu animeiddiad o Mr Urdd a hysbyseb am wersyll yr Urdd Llangrannog ar Adobe Cloud Express dan arweiniad Mr Eryl Jones o Gyngor Sir Ceredigion.

Cafwyd her gan y dewiniaid digidol i bostio llun o neges y diwrnod ar y gwefannau cymdeithasol. Pwrpas yr her oedd i weld pa mor bell byddai ein llun yn teithio'r byd ac mi roedd yr ymateb yn ardderchog - cyrhaeddodd ein llun i wledydd fel Sbaen, Canada hyd yn oed Awstralia! Y mae hyn wedi dangos mae ein negeseuon wir yn cyrraedd pedwar ban byd!

**Wythnos Iechyd Meddwl**
Thema eleni oedd 'Tyfu gyda'n gilydd' ac mi fuodd pob dosbarth yn brysur iawn yn cynnal gweithgareddau amrywiol I godi ymwybyddiaeth o'r hyn gallwn gwneud i gefnogi ein gilydd o ddydd i ddydd.

Gwelwyd sesiynau Ioga, Cynllunio Balwns ac ystyried pwy yw'r pobl sydd yn ein codi i fyny fry mewn bywyd, Sesiynau dawnsio gwerin a chelf.

Ffocws yr wythnos oedd plannu hadau i bob teulu a braf oedd medru rhannu potyn o hadau mewn pridd i bob teulu cael gofalu amdanynt adref. Gobeithio bod nifer fawr o'r hadau wedi egino erbyn hyn!

**PC Hannah**
Diolch yn fawr i PC Hannah am y wers rithiol ddiddorol ac addysgiadol gafodd y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar bobl sy'n ein helpu. Dysgom lawer am yr asiantaethau argyfwng sydd yn barod i'n helpu.

**Gweithdy Crochenwaith**
Buodd y Cyfnod Sylfaen yn brysur iawn yn gwneud crochenwaith y tymor hwn. Cafwyd gwers rithiol ardderchog gan Laura o Ganolfan y Celfyddydau ar sut i fynd ati i greu cwpan. Mae gennym blant creadigol iawn yma! Diolch yn fawr Laura.

# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Dydd Miwsig Cymru**
Fe wnaeth bl 5 a 6 lu o weithgareddau I ddathlu Dydd Miwisg Cymru-gwrando ar gyfweliad DJ Marc Griffiths, Kahoot, dewis 5 uchaf fel cyflwynwyr radio, rhifedd a disgo dosbarth i goroni'r cyfan. Roedden ni wedi mwynhau gwrando ar gerddoriaeth campus Cymru- diolch i artisitiaid Cymru am y wledd o ganeuon. Cafwyd llawer o ddawnsio a chanu o gwmpas yr Ysgol bob dydd!

**Gweithdy ysgrifennu Creadigol**
Diolch i'r Urdd am drefnu gweithdy gwych yng nghwmni Eurig Salisbury a Hywel Griffiths. Yr oedd  yr awen yn llifo am y prynhawn ac fe wnaeth y plant fwynhau cyfansoddi cerddi o dan arweinyddiaeth y ddau feistr!

**Cogurdd**
Wel am chwip o gystadleuaeth!! 12 o gystadleuwyr y nifer uchaf sydd wedi cystadlu gyda ni! Cibab Ffrwythau oedd y rysait



eleni ac roedd hi'n wledd i'r llygaid i wylio sgiliau a chanolbwyntio y 12!

Mrs Watkins oedd a'r dasg anodd o feirniadu ond fel hyn oedd hi….. Cayden Holmes yn ennill gyda'i arddangosfa o ffrwythau ar farbaciw, Lleucu ap Llywelyn gyda'i rocedi a Mya James wedi creu campwaith o arddangosfa o flodau cibabs.


Llongyfarchiadau hefyd Twm, Caio, Gruffudd,Aron, Telyn, Emilie, Anest, Elan a Harrison- roeddech i gyd yn wych!







inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru


#SEFYLL GYDA WCRÁIN

# Tasg y Tincer

Mi wnes i fwynhau gweld eich lluniau o'r person dewr yn sgio i lawr y llethr y mis diwethaf. Hoffwn i fedru rhoi cynnig arni! Diolch am eich gwaith: Hanna Guy, Caerdydd; Mari Fflur Roberts, Penrhyn-coch; Evan Roberts, Bow Street. Diolch yn fawr i ti, Jack Herron, am dy chwilair adar – da iawn ti am ddarganfod bob un.

Dy lun di, Mari, ddaeth o'r het yn gynta y tro yma, felly ti sy'n cael y fedal aur. Llongyfarchiadau mawr!



Mari

Gobeithio eich bod wedi mwynhau dathlu Ddiwrnod y Llyfr ddechrau'r mis. Dwi'n siŵr bod ysgolion ardal *Y Tincer* wedi gweld sawl brenhines, dyn tân, môr-leidr, tylwythen deg, archarwr, gwrach ... pob math o gymeriadau ar y diwrnod hwnnw, a phawb yn dathlu byd y stori a'r llyfr.

Mae bellach yn dymor y gwanwyn – mae'r ŵyn yn y caeau, y planhigion yn dechrau deffro yn yr ardd, y tywydd yn brafiach, ac mae bron yn amser troi'r awr am ymlaen ar y cloc ... Hwrê! Fuoch chi yn y Parêd Gŵyl Ddewi yn Aberystwyth, yn chwifio baneri ac yn mwynhau'r hwyl? Nid Dewi ydi'r unig sant sydd â gŵyl arbennig y mis hwn. Mae Iwerddon hefyd yn dathlu, ar 17 Mawrth. Ac enw'r sant? Sant Padrig. Yn ôl y sôn, defnyddiodd Patrig feillionen (*shamrock*) i esbonio i bobl ei wlad am Dduw. Mae gan y feillionen dair deilen fach; ydech chi wedi gweld y planhigyn yn tyfu yn ardal *Y Tincer*? Dillad lliw gwyrdd y mae bobl o Iwerddon yn eu gwisgo mewn gemau rygbi ac ati – lliw y feillionen. Bu farw Padrig ar ddiwedd y bumed ganrif. Edrychwch am fwy o ffeithiau amdano ar y we, neu holwch yn eich llyfrgell leol.



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Y mis hwn, beth am liwio llun y blodau, sy'n dangos bod y gaeaf wedi pasio? Mae briallu yma, a chennin Pedr. Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Ebrill.... a ta tan toc!


ISSN 0963-925X
9 770963 925009

*Rhif 447 | Mawrth 2022*